


cynadleddau  
**Bangor**



**Croeso**  
i'n **Byd**



*bydded goleuni*

## Mae gogledd Cymru'n cynnig profiad cwbl unigryw.

Tirluniau hanesyddol, chwedlau mytholegol, celf a chrefft yn ogystal â blas o'r modern; mae digonedd o le i'w harchwilio nhw i gyd.

Gadewch i'r golygfeydd ysblennydd eich ysbrydoli tra bod ein cyfleusterau yma ym Mhrifysgol Bangor yn creu argraff arnoch. Gyda thîm o staff ymroddedig wrth law drwy gydol eich ymweliad, mae gennym bopeth sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich cyfnod gyda ni yn un cofiadwy.

Felly os ydych chi'n grŵp o dri neu'n gwmni o 300, os ydych chi'n chwilio am leoliad ysbrydoledig, cae chwarae antur natur ei hun, lleoliad trawiadol i briodas neu le i roi'ch pen i lawr rhwng gweithgareddau yng ngogledd Cymru, yna ymunwch â ni ym Mangor.

**Amser, gofod a rhyddid i archwilio yn  
harddwch GOGLEDD CYMRU**



# Cynadleddau



*byddwch ychydig  
yn wahanol*



# Cynadleddau

## Fe gymrwn ni ofal ohonoch

Rydym yn falch iawn o'n gallu i ddarparu trefnwyr cynadleddau sy'n rhoi gwasanaeth cynhwysfawr a phersonol lle mae hyblygrwydd a gwasanaeth i'r cwsmer yn allweddol.

Down o hyd i'r cyfleusterau sy'n addas i'ch gofynion, eich amserlen a'ch cyllideb chi. Rydym yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch i gyrraedd eich nod – cynhadledd lwyddiannus a chofiadwy.

Bangor yw'r Brifysgol wyrddaf yng Nghymru ac un o'r goreuon ym Mhrydain yn ôl 'People and Planet'. Rydym wedi ymrwmo i wella'n hamgylchedd yn barhaus ac wedi llwyddo i gyrraedd lefel uchaf safon amgylcheddol y Ddraig Werdd.

[Ein Llwyddiannau Draig Werdd a Chyngrair Werdd](#)



# Rydym yn cynnig...

- Pecynnau wedi'u teilwra'n unigol
- Llety wedi'i arlwyo i unigolion a grwpiau
- Cynadleddau a gwledda
- Priodasau
- Ciniawau o'r ansawdd orau
- Gofod cyfarfod corfforaethol
- Derbyniadau cymdeithasol
- Llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd pwysig
- Cyfleusterau hamdden ar y safle



*Edrychun ymlaen  
at eich croesawu*



# Cyfarfodydd

**B**

*bod yn rhan o rywbeth.*



# Ystafelloedd Cyfarfod

Hyderwn bod gennym rai o'r lleoliadau mwyaf hyfryd ac anarferol sydd gan y DU i'w cynnig.

Maent yn gwbl addas i gynadleddau preswyl, cyfarfodydd undydd, dyddiau hyfforddi i ffwrdd, darlithoedd, arddangosfeydd, cyfarfodydd a seremonïau gwobrwyo.

Mae ystafelloedd cyfarfod y Brifysgol ar gael i bawb. Mae gennym gyfanswm o dros 30 o ystafelloedd cyfarfod gyda lle i rhwng 5 a 500 o bobl, ac mae rhan fwyaf ar gael drwy gydol y flwyddyn.

<b>Steil theatr</b>	<b>500</b>
<b>Steil cabaret</b>	<b>300</b>
<b>Ystafell ddosbarth</b>	<b>250</b>
<b>Ystafell bwyllgor</b>	<b>40</b>


Mae cwsmeriaid blaenorol wedi dweud bod y newid amgylchedd ac awyrgylch heddychlon Bangor a'r ardal wedi galluogi cynadleddwyr i ganolbwyntio'n llawn ar y gwaith dan sylw. Mae'r golygfeydd godidog a'r lliaws o adnoddau naturiol sydd o fewn cyrraedd hawdd yn cyfrannu hefyd at yr ymdeimlad o heddwch.

## Gwasanaethau technegol


Lleoedd cynadledda yn edrych yn well nag erioed!

Gwnaed llawer o waith adnewyddu yn ein hystafelloedd cyfarfod ac mae rhai o'r darlithfeydd wedi cael taflunyddion clywedol sgrin lydan, manylder uwch newydd sbon, ac mae rhagor o ddatblygiadau ar y gweill. Gan amlaf mae gan bob un o'n darlithfeydd ac ystafelloedd cyfarfod daflunydd data a chyfrifiadur sefydlog fel offer safonol neu'r opsiwn i gysylltu eich cluniadur eich hun.

Mae gan bob un o'r ystafelloedd mawr meicroffon diwifr fel offer safonol. Gellir trefnu rhoi setiau a microffonau ychwanegol yn yr ystafelloedd llai ond dylid archebu ymlaen llaw.





# Cynllun Llawn Prif Adeilad y Celfyddydau






# Neuadd Prichard Jones



# Neuadd Powis



# Prif Ddarlithfa'r Celfyddydau

231.06m<sup>2</sup>

Taflunydd

Mynedfa

Mynedfa

Gweithdy



# Ystafell y Cyngor



Llawr cyntaf

83.2m<sup>2</sup>




6.06m

13.74m

Llawr Gwaelod



# Ystafelloedd Darlithio



# Neuadd Reichel



# Arlwyo





## Rydym yn frwdfrydig dros fwyd!

Rydym yn gofalu am yr hyn sy'n mynd i mewn i'n bwyd, felly nid ydym yn defnyddio ond y cynhwysion mwyaf ffres, y cynhyrchion o'r ansawdd gorau, a chyflenwyr lleol, lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn golygu eich bod, gyda phob pryd, yn profi coginio cartref sydd wedi'i drin yn dyner.

Rydym yn cynnig ansawdd eithriadol, dewis a gwerth am eich arian yn ein holl fwydlenni. Dewiswch o blith amrywiaeth eang, o luniaeth syml i ginio busnes, cinio mwy ffurfiol â dau neu dri chwrs, neu efallai ginio gala gyda'r nos.

Rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i arlwyo ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid. Felly, os oes arnoch angen rhywbeth ychydig yn wahanol ar gyfer eich digwyddiad, y cwbl sydd angen ichi ei wneud yw gofyn!

Mae Prifysgol Bangor wedi cael achrediad Masnach Deg.



# Llety

Mae gan ein campws 4 seren olygfeydd ardderchog o fynyddoedd Eryri ac Afon Menai.

Lle i un sydd ym mhob ystafell, gydag en-suite a thŷ bach. Darperir yr holl ddillad gwely a thywelion. Trefnir ystafelloedd gwely mewn unedau o 8 ystafell.





# Pecynnau Cynadleddau

## Cyfradd Cynhadledd 24 awr

Yn cynnwys gwely a brecwast, lluniaeth bore, cinio, lluniaeth prynhawn a swper tri chwrs

## Cyfradd Dydd Cynadleddwyr

Mae'r pris i gynadleddwyr dydd yn cynnwys cyfraniad at gost llogi'r brif ystafell yn ôl maint y grŵp, paned bore, cinio bwffe dau gwrs a phaned prynhawn.

Detholiad o giniawau Cynhadledd yn amrywio o ginio bwffe at giniawau gala ffurfiol gyda bwydlenni wedi'u teilwra i gwrdd â'ch gofynion cyllideb.



Digwyddiadau



*byddwch yn rhan  
o rybeth...*



# Digwyddiadau

Gyda'n staff talentog, ein rheolwyr profiadol a'n hamrywiaeth eang o leoliadau gallwn eich helpu chi i drefnu digwyddiad i'w gofio.

Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol i drefnu a chefnogi digwyddiadau codi arian, wedi trefnu ciniawau ffurfiol a chyngherddau ac wedi helpu'n cwsmeriaid i fwynhau gwleddoedd priodas a derbyniadau cymdeithasol cofiadwy.

*Yma i helpu...*

Mae ein Tîm Digwyddiadau yma i'ch helpu chi i wireddu'ch gweledigaeth a thynnu pwysau'r trefnu oddi arnoch fel y gallwch fwynhau digwyddiad di-straen yng nghwmni'ch gwesteion.



Addysg



*byddwch ar y brig...*



# Addysg

Rydym yn falch o gefnogi amcanion addysgol y Brifysgol drwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau i ysgolion a phrifysgolion sy'n ymweld â gogledd Cymru.

P'un ai ydych yn chwilio am fan cychwyn ar gyfer eich gwaith maes neu eisiau cyflwyniad i gyrsiau addysg uwch ar gyfer eich disgyblion, rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaeth recriwtio myfyrwyr y Brifysgol ac rydym wastad yn fodlon ymateb i unrhyw ofynion penodol.

[Rhaglen Addysg uwch](#)

*Cyfleusterau ychwanegol*

Yn ychwanegol at eich pecyn llety efallai yr hoffech ddefnyddio'n labordai gwyddonol neu ein hystafelloedd cyfrifiaduron. [Cysylltwch â ni](#) i drafod eich gofynion.



# Llety

Mae gan ein campws 4 seren olygfeydd ardderchog o fynyddoedd Eryri ac Afon Menai.

Lle i un sydd ym mhob ystafell, gydag en-suite a thŷ bach. Darperir yr holl ddillad gwely a thywelion. Trefnir ystafelloedd gwely mewn unedau o 8 ystafell.



[Rhestr prisiau](#)



# Arlwyo



## Rydym yn frwdfrydig dros fwyd!

Rydym yn gofalu am yr hyn sy'n mynd i mewn i'n bwyd, felly nid ydym yn defnyddio ond y cynhwysion mwyaf ffres, y cynhyrchion o'r ansawdd gorau, a chyflenwyr lleol, lle bynnag y bo modd. Mae hyn yn golygu eich bod, gyda phob pryd, yn profi coginio cartref sydd wedi'i drin yn dyner.

Rydym yn cynnig ansawdd eithriadol, dewis a gwerth am eich arian yn ein holl fwydleni. Dewiswch o blith amrywiaeth eang, o luniaeth syml i ginio busnes, cinio mwy ffurfiol â dau neu dri chwrs, neu efallai ginio gala gyda'r nos.

Rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i arlwyo ar gyfer anghenion ein cwsmeriaid. Felly, os oes arnoch angen rhywbeth ychydig yn wahanol ar gyfer eich digwyddiad, y cwbl sydd angen ichi ei wneud yw gofyn!

Mae Prifysgol Bangor wedi cael achrediad Masnach Deg.



# Gwyliau **B** *rhyubeth i'ch rhyfeddu*





# Gwyliau

## Lle gwych i ymweld ag ef....

Whether you're a group of 3 or a company of 300, if you're looking for an inspirational location, nature's own adventure playground, or a place to rest your head between activities in North Wales, then join us at Bangor.

## Pecynnau llety ar gyfer grwpiau

Mae ein pecynnau llety'n cynnig arlwyfaeth a llety mewn ystafelloedd sengl, en-suite heb orfod talu'n ychwanegol am ystafell sengl!

Mae'r arlwy o safon eithriadol o uchel gyda bwydlenni wedi'u cynllunio'n arbennig i gynnwys brechwast llawn, pecynnau bwyd neu ginio poeth a phrydau nos.

Mae nifer o grwpiau hefyd yn dewis cael cinio dathlu yn ystod eu hymweliad a gallwn gynnig amrywiaeth o fwydlenni ac adloniant arbennig, fel telynor neu ddisgo i wneud y noson yn gofiadwy.

## Yma i helpu...

Gall trefnu gwyliau i griw o bobl fod yn brofiad llawn straen ac mae ein staff cyfeillgar a defnyddiol yn cynnig gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr sy'n cyfuno'n gwybodaeth drylwyr o'r ardal gyda rhwydwaith o arbenigwyr lleol er mwyn sicrhau bod eich taith yn swyno ac yn synnu'ch criw!

Mae Bangor mewn lle perffaith ar gyfer crwydro Parc Cenedlaethol Eryri, Ynys brydferth Môn ac eto mae'n hawdd cyrraedd yma o bob cwr o'r wlad i'ch helpu chi i gynllunio'ch ymweliad. Gallwn argymhell teithiau i chi a rhoi cysylltiadau lleol er mwyn trefnu ymweliadau â llefydd drwy drefniant arbennig.

Gobeithiwn gael y pleser o'ch croesawu i Fangor, ac mae croeso i chi [gysylltu â ni](#) am fwy o wybodaeth.

## Rhestr prisiau




# Atyniadau

- Castell Penrhyn
- Ceudyllau Llechwedd
- Parc Gelli Gyffwrdd
- Ropes and Ladders, Llanberis
- Yr Hwylfan
- Nant Gwrtheyrn
- Gwaith Llechi Inigo Jones
- Tree Top Adventure
- Rheilffordd Llyn Padarn
- Amgueddfa Lloyd George
- Amgueddfa Lechi Cymru
- Amgueddfa ac Oriol Gwynedd
- Mynydd Gwefru
- Canolfan Treftadaeth y Crynwyr
- Rheilffordd yr Wyddfa
- Ar y Cei yn Abermaw
- Gwaith Copr Sygun
- Parc Glynllifon
- Melin Wlân Trefriw
- Parc Gwledig Padarn
- Oriol Plas Glyn-y-Weddw
- Castell Caernarfon (CADW)
- Canolfan Gweithgareddau Glasfryn Parc
- Castell Conwy (CADW)
- Caffi Caban
- Castell Cricieth (CADW)
- Labrinth y Brenin Arthur
- Castell Harlech (CADW)
- Gardd Bodnant
- Plas Mawr, Tŷ Trefol o Oes Elizabeth (CADW)
- Portmeirion
- Castell Biwmares (CADW)
- Rheilffordd Ucheldir Cymru
- Hufen Iâ Cadwalader



# Priodasau

eich diwrnod chi  
it's your day



*Priodasau-Weddings*





## Priodasau

Beth am gynnal eich priodas mewn lleoliad sydd wedi'i wreiddio'n ddwfn mewn hanes ac ysblander ond sy'n ddigon agos atoch i sicrhau'r cyffyrddiad personol.

Mae gennym ddewis o 5 ystafell drwyddedig gan gynnwys Neuadd fawreddog Prichard-Jones neu un o Ystafelloedd cain y Teras, sy'n cynnig golygfeydd trawiadol dros y ddinas, Bae Hirael a'r mynyddoedd gerllaw.

Siaradwch ag un o'r tîm a fydd yn fwy na pharod i drafod eich gobeithion a'ch dyheadau am eich diwrnod mawr...



O fewn ein hystâd, ceir detholiad ffasiynol o leoliadau, yn darparu manau delfrydol ar eich cyfer chi a'ch parti priodas. Rydym yn eich gwahodd i ddewis rhwng nodweddion traddodiadol a thrawiadol Prif Adeilad y Celfyddydau neu amlbwrpasedd a chyfaredd Neuadd Reichel - adeilad mwy cyfoes a adnewyddwyd yn ddiweddar, a'i lawnt ysgubol. Mae'r lleoliadau prydferth hyn yn mynd i greu golygfa drawiadol ar gyfer eich lluniau, ac mae'r amgylchedd croesawgar yn sicrhau y byddai'r naill leoliad neu'r llall yn lle arbennig ar gyfer y diwrnod swynol hwnnw. Mewn gwirionedd, mae'r amrywiaeth o leoliadau y gellwch ddewis o'u plith yn gosod y Brifysgol ar ei phen ei hun.





# Neuadd Prichard Jones

*L*eoliad yw hwn ar gyfer  
y rheiny sy'n chwilio am  
rywbeth gwirioneddol anghyffredin,  
naill ai ar gyfer dathliad gyda'r nos,  
parti priodas yn ystod y dydd, neu  
seremoni briodas. Hwn yw'r mwyaf  
o'n lleoliadau, ac ynddo le hyd at 400  
o westeion mewn seremoni priodas ac  
hyd at 240 o westeion mewn gwledd  
briodas. Mae hon yn neuadd fawr ar  
gyfer dathliad mawr, â seddau balconi  
a lloriau pren wedi'u sgleinio.

Cynhwysedd - hyd at 240 yn eistedd  
neu cynhwysedd uchafswm o 400



# Neuadd Powis

Ystafell hanesyddol ac iddi awyrgylch neilltuol, yn adnabyddus am ei hacwsteg a'i cheinder cynnil. Gyda'i llwyfan uchel a'i murlun trawiadol, bydd Neuadd Powis yn addas ar gyfer eich seremoni briodas, gwledd briodas neu ddathliad bach gyda'r nos.

Cynhwysedd - hyd at 90 yn eistedd neu cynhwysedd uchafswm o 200



# Neuadd Reichel

Mae Neuadd Reichel ychydig o bellter o Brif Adeilad y Celfyddydau ac wedi'i chodi o'i mynedfa ei hun oddi ar Ffordd Ffriddoedd. Mae'r adeilad trawiadol hwn o'r 1940au wedi'i adfywio gyda thro bach modern. Gellwch ddewis o blith detholiad o ystafelloedd o faint gwahanol i gynnal eich gwledd briodas, a'r cyfan ohonynt yn cynnig yr un ymdeimlad o le a golau gyda'u nenfydau uchel a'u ffenestri enfawr.

Cynhwysedd mewn gwahanol ystafelloedd - 50 hyd at 115 (yn eistedd)

Cynhwysedd mewn gwahanol ystafelloedd - 50 hyd at 150 ar gyfer bwffe anffurfiol.







## Seremonïau Sifil

Ym Mhrifysgol Bangor rydym yn hynod ffodus fod gennym bum ystafell wedi eu trwyddedu ar gyfer seremonïau sifil. Os yw'r briodas yn un fawr, mae lle i 200 o bobl yn Neuadd Powis ac i 400 yn Neuadd Prichard Jones.

Mae gennym hefyd Ystafelloedd y Teras ar gyfer grwpiau llai, sy'n cynnig golygfeydd trawiadol dros y ddinas, Bae Hirael a'r mynyddoedd gerllaw.

Ar gyfer seremoni gartrefol, mae lle i 20 o westeion yn y ddau ystafell lleiaf. Mae'r ystafell fwyaf gyda ynddi le i 60 o westeion ar gyfer seremoni, a hyd at 50 ar gyfer gwledd briodas.

Ar ben hynny, mae Lolfa'r Teras wedi'i lleoli yn ymyl yr ystafelloedd prydferth hyn, ac yn ddelfrydol ar gyfer parti â diodydd neu wledd briodas. Mae mynediad uniongyrchol i'r tu allan o Lolfa'r Teras yn rhoi cefndir trawiadol ichi ar gyfer eich lluniau, sef Prif Adeilad hanesyddol y Celfyddydau.



## Bwydlenni ac Arlwyo

Mae gennym dîm profiadol o staff digwyddiadau i gynnig croeso cynnes ichi, a'u gwaith hwy yw sicrhau bod popeth yn mynd yn dda, cyn y digwyddiad ac ar y diwrnod ei hun. Bydd ein prif gogydd arobryn yn creu bwydlenni at eich dant, ac mae ein tîm medrus yn sicrhau bod eich holl ddymuniadau'n cael eu gwireddu. Rhowch wybod inni os oes gennych rywbeth mwy penodol mewn golwg nad yw ar ein bwydlenni enghreifftiol; eich dychymyg chi yw'r unig derfyn. Rydym hefyd yn gallu darparu yn ôl gofynion dietegol arbennig.





## Gwasanaethau Ychwanegol

Callwn gynnig cyngor i chi, ateb unrhyw gwestiynau a fô gennych a darparu unrhyw gymorth y bo ei angen arnoch wrth drefnu eich seremoni a'ch parti. Mae hyblygrwydd yn hollbwysig, a byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ateb eich gofynion unigol. Eich diwrnod arbennig chi yw hwn, ac rydym am sicrhau bod pob dim yn iawn i chi.

Mae Prifysgol Bangor yn lleoliad bythgofiadwy ar gyfer eich diwrnod bythgofiadwy ond, yn bwysicach fyth i ni, hwn yw...

**eich diwrnod chi**



## Beth Nesaf?

Rydym yn deall bod y penderfyniad ynglyn â lle i gynnwys eich priodas a'ch gwledd briodas yn hynod o bwysig, felly beth am ichi ddod draw i fwrw golwg ar y lle, yn rhad ac am ddim, a heb unrhyw ymrwymiad ar eich rhan? Byddai'n bleser gennym gyfarfod â chi, dangos ein lleoliadau ichi a thrafod eich gofynion â chi, ac rydym yn ffyddiog y cewch argraff dda. Gallwn eich cyfeirio at weithwyr proffesiynol sydd wedi gweithio gyda ni o'r blaen - yn ffotograffwyr, yn werthwyr blodau, yn wneuthurwyr teisennau ac yn yrwyr, i enwi ond ychydig.

Siaradwch â ni ar **01248 383609** neu anfonwch e-bost atom, i [priodasau@bangor.ac.uk](mailto:priodasau@bangor.ac.uk)

# BANGOR

Neuadd Prichard Jones  
& Neuadd Powis

Neuadd Reichel  
Hall

Teras

FFORDD CAERGYSI HOLYHEAD ROAD

FFORDD FFRIDDEDD ROAD

COLEG  
MENAI

FFORDD CAERGYSI HOLYHEAD ROAD

FFORDD DEINIOL ROAD


STRYD PAWR HIGH STREET



# Gwybodaeth Gyffredinol

**B** *byddwch yn barod...*





Neuaddau Preswyl/Halls of Residence

Adeiladau eraill y Brifysgol/Other University buildings

Llefydd i Fwyta/Places to eat

Adeiladau Chwaraeon a Hamdden/  
Sports and Leisure buildings

Canol y Ddinas/  
City Centre

RHODFA  
MENAI  
AVENUE

Canolfan Meddygol Bodnant/  
Bodnant Medical Centre

Swyddfa Undeb y Myfyrwyr/  
Students Union Office

BANGOR

A5 FFORDD CAERGYBI / HOLYHEAD ROAD

JMJ Bryn Dinas

JMJ Tegfan

Crafnant

Cefn y Coed

Ffraw

Glaslyn

Llanddwyn

Ystafell Gyffredin  
Braith  
Common Room

Swyddfa  
Estadau/  
Estates  
Office

Staff yn unig/  
Staff only

Ystafell Gyffredin  
Alaw  
Common Room

Alaw

Peris

Y Borth

Y Glyder

Golchdy/  
Laundrette

Porthdy  
Diogelwch/  
Security Lodge

Golchdy/  
Laundrette

Siop  
Ffriddoedd  
Shop

Braith

Gwynant

Pont Menai,  
Safle Chwaraeon Treborth,  
A55, Cyffordd 9 /  
Menai Bridge,  
Treborth Sports Site,  
A55, Junction 9

Enlli

Peris

Alaw

Y Borth

Elidir

Y Glyder

Idwal

Adda

Canol y  
Ddinas/  
City Centre

Meysydd Chwarae/  
Playing Fields

Cyrtiau Tennis/  
Tennis Courts

Canolfan Chwaraeon  
Maes Glas  
Sports Centre

Llawr Gwaelod - Swyddfa  
Neuaddau ac Ystafell Bost/  
Ground Floor - Halls Office & Mail Room

Reichel

Swyddfa Gynadleddau  
Reichel a Derbynfa

Gogledd/North

1/8 milltir/mile

0.25 cilometr/kilometre

© Mapping Company Ltd, 2012



# Gwybodaeth Gyffredinol

## Cyrraedd yma

Saif dinas Bangor rhwng Afon Menai a Pharc Cenedlaethol Eryri.

### Cyfarwyddiadau teithio

Mae'n fwy na thebyg fod Bangor o fewn cyrraedd mwy hwylus nag y byddech yn tybio, mewn car, ar y trênn neu mewn bws!

### Mewn car...

Gallwch dynu allan o'r map lleoliad rhyngweithiol hwn (sydd wedi ei ddarparu gan Google map i weld yn union lle mae Prifysgol Bangor. Gallwch ei ddefnyddio i gynllunio eich taith.

Os oes gennych system 'Sat Nav', defnyddiwch y cod post LL57 2UW er mwyn cyrraedd adeilad Deiniol yng nghanol y ddinas (adeilad 47 ar ein map o Fangor).

### Ar y bws...

Mae nifer o wasanaethau yn rhedeg yn gyson i Fangor. Os ydych am deithio ar y bws, ewch i wefan Traveline Cymru i gynllunio'ch taith neu ffoniwch 0871 200 22 33.

Traws Cambria - [www.trawscambria.info](http://www.trawscambria.info)

### Ar y tren...

Ewch i wefan National Rail neu Traveline Cymru am amserlenni i orsaf Bangor.





# Gwybodaeth Gyffredinol

## Cyrraedd yma

### Ar y môr

Os ydych yn teithio o'r Iwerddon i Fangor gallwch groesi ar y fferi i Gaergybi, ewch i'r gwefannau allanol hyn i gael yr amserlenni:

[www.irishferries.com](http://www.irishferries.com)

[www.stenaline.com](http://www.stenaline.com) Os ydych yn cyrraedd Caergybi, ceir cyswllt rheilffordd i Fangor (mae'r daith yn cymryd rhyw 30 munud). Ewch i wefan y Rheilffyrdd Cenedlaethol am fanylion.

### Mewn awyren

Os ydych yn cyrraedd maes awyr Manceinion neu Lerpwl, ceir cyswllt rheilffordd i Fangor yn aml iawn. Ewch i wefan y Rheilffyrdd Cenedlaethol am fanylion.

Hedfan i Fanceinion: [www.manaairport.co.uk](http://www.manaairport.co.uk)

Hedfan i Lerpwl: [www.liverpooljohnlennonairport.com](http://www.liverpooljohnlennonairport.com)

Maes Awyr Ynys Môn

Mae gan Maes Awyr Ynys Môn hedfaniadau rhwng Maes Awyr Caerdydd ac Ynys Môn. Ewch i [www.maesawyrmon.com](http://www.maesawyrmon.com) am fwy o fanylion.



**Cynadledau Bangor  
Swyddfa Gynadledau  
Neuadd Reichel  
Prifysgol Bangor  
Ffordd Ffriddoedd  
Bangor  
Gwynedd  
Gogledd Cymru  
LL57 2TR**

**Ffôn: 01248 388088**

**[cynadledau@bangor.ac.uk](mailto:cynadledau@bangor.ac.uk)**

**[www.bangor.ac.uk/conferences](http://www.bangor.ac.uk/conferences)**





*amser i...* **fyfyrrio**